



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) - Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

1. Disgrifio ac egluro effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc.

- 1.1. Cyhoeddwyd y Rhaglen Lywodraethu ar 17 Mehefin 2021 yn nodi ymrwymïadau uchelgeisiol i'w cyflawni rhwng 2021 a 2026 i wella bywydau pobl ledled Cymru. Mae'n bwysig bod y Senedd a Llywodraeth leol yn cynrychioli'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu'n agos, ac mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i ddiwygio llywodraeth leol i leihau'r diffyg democrataidd. Ein gweledigaeth yw i Gymru fod yn fan lle mae'n hawdd i bob dinesydd gymryd rhan yn ein democratiaeth, cael llais mewn etholiadau a phleidleisio.
- 1.2. Ym mis Mehefin 2021 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru raglen uchelgeisiol o ddiwygio etholiadol i adeiladu ar waith a gyflawnir yn y pumed Senedd, gan gynnwys ymestyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 ac 17 oed drwy Ddeddf Etholiadau Llywodraeth Leol (Cymru) a Deddf Etholiadau Senedd Cymru 2021. Ar 29 Gorffennaf 2021 cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ddatganiad ysgrifenedig yn nodi set o flaenoriaethau i alluogi pleidleiswyr sydd newydd gael eu hetholfreinio a phleidleiswyr presennol i gofrestru a phleidleisio yn etholiadau llywodraeth leol yn 2022. Mewn perthynas â phlant a phobl ifanc roeddem yn llwyddiannus wrth:
 - weithio gydag awdurdodau lleol a'r gymuned etholiadol i gynyddu cofrestrïad, yn enwedig drwy weithio gydag ysgolion.
 - adeiladu ar y sianeli presennol i gynyddu ymgysylltiad democrataidd cyffredinol gan gynnwys helpu pobl ifanc i ddeall yr effaith y mae llywodraeth leol yn ei chael ar eu bywydau.
 - gefnogi pedwar prif gyngor i gyflwyno detholiad o gynlluniau peilot pleidleisio hyblyg i brofi gwahanol fathau o bleidleisio cynnar gan gynnwys rhoi cyfle i bobl ifanc bleidleisio yn yr ysgol a'r coleg.
- 1.3. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer symleiddio a chryfhau gweinyddiaeth etholiadau Cymru, gwella cyfranogiad pleidleiswyr ac ymgeiswyr a chyflwyno gwelliannau ehangach i weithrediad democratiaeth leol. Wrth ddatblygu ein cynigion, rydym wedi ystyried pa fecanweithiau ychwanegol y gellir eu rhoi ar waith trwy dulliau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol i gynyddu cyfranogiad pobl ifanc yn y broses ddemocrataidd. Gwyddom fod 31,078 o bobl ifanc 16 ac 17 oed wedi cofrestru i bleidleisio yn 2021 ac mae gwaith a wnaed ers hynny wedi gweld awdurdodau lleol yn gwella'r nifer hwn ymhellach. Rydym am adeiladu ar y gwaith hwn gyda dulliau sydd wedi'u cynllunio i ennyn



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

diddordeb a brwdfrydedd pobl ifanc i gofrestru i bleidleisio a dod yn ddinasyddion democrataidd gweithredol.

1.4. Ym mis Hydref 2022 fe wnaethom ymgynghori ar gyfres eang o gynigion i ddiwygio etholiadau Cymru. Fel rhan o'n hymgyngoriad, gwnaethom gyhoeddi fersiwn ar gyfer pobl ifanc. Cawsom 39 o ymatebion i'r fersiwn gyfeillgar i bobl ifanc yr oedd y mwyafrif ohonynt yn gyffredinol gefnogol i'r darpariaethau hynny sy'n effeithio fwyaf ar bobl ifanc. Mae crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. [Gweinyddu a diwygio Etholiadol Papur Gwyn | GOV. CYMRU](#)

1.5. Cynhaliom ddigwyddiad lansio Papur Gwyn ar gyfer pobl ifanc, ymgysylltu â phlant a phobl ifanc trwy rwydweithiau a digwyddiadau ac rydym yn cefnogi nifer o sefydliadau drwy ein Grant Ymgysylltu Democrataidd a fydd yn gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc ar bwysigrwydd democratiaeth a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r Bartneriaeth Ymgysylltu Democrataidd a sefydlwyd yn 2021 i annog pobl ifanc i gofrestru i bleidleisio. Mae'r bartneriaeth hon yn rhoi cyfle i weithio gyda nifer fawr o grwpiau ledled Cymru a'i nod yw cefnogi pobl ifanc i ymgysylltu â democratiaeth a magu hyder i gymryd rhan mewn etholiadau.

2. Esbonio sut mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant

2.1 Gofynnodd y Papur Gwyn dros 80 o gwestiynau am gynigion i:

- hyrwyddo ymgysylltiad mewn etholiadau;
- gwneud sefyll mewn etholiad yn fwy diogel ac yn fwy syml;
- moderneiddio gweinyddu etholiadau;
- gwella ymddygiad adolygiadau etholiadol a chymunedol ar gyfer llywodraeth leol;
- atgyfnerthu cyfraith etholiadol; a
- cynigion tymor hwy ar gyfer diwygio etholiadol i gefnogi democratiaeth Cymru yn y dyfodol.

2.2 Bydd y mesurau canlynol sy'n effeithio'n arbennig ar blant a phobl ifanc yn cael eu cyflwyno yn y Senedd hon drwy amrywiaeth o gerbydau deddfwriaethol ac addeddfwriaethol:

- Darparu gwybodaeth gliriach i bleidleiswyr yn etholiadau Cymru drwy ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion sicrhau bod Llwyfan Gwybodaeth Etholiadau Cymreig i yn cael ei greu.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol yng Nghymru i gynllunio a threalu cofrestru etholwyr heb gais am etholiadau Cymru. Credwn y bydd proses gofrestru symlach o fudd arbennig i bobl ifanc 16 ac 17 oed sydd newydd gael eu hetholfreinio gan helpu i ddatblygu eu perthynas â democratiaeth yng Nghymru a gallai gynyddu eu cyfranogiad mewn etholiadau Senedd ac etholiadau lleol.
 - Cefnogi dysgwyr i ddod yn ddinasyddion gweithredol drwy'r Cwricwlwm i Gymru. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid addysg ac awdurdodau lleol i ddatblygu fframwaith ar gyfer cefnogi ysgolion i sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfleoedd i gynyddu dealltwriaeth o ddemocratiaeth ac yn hyrwyddo arfer gydol oes o gyfranogiad.
 - Gwella cyfraddau cofrestru myfyrwyr drwy weithio gydag awdurdodau lleol a sefydliadau addysg uwch i sefydlu cytundeb rhannu data sy'n caniatáu i fyfyrwyr gofrestru i bleidleisio yn ystod eu hwythnos gofrestru.
- 2.3 Dywedodd bron i 65% o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad 'cyfeillgar i ieuenctid' fod gwella cyfraddau cofrestru myfyrwyr yn syniad da, gan rymuso myfyrwyr i deimlo ymdeimlad o berthyn i'r ardal y maent yn astudio ynddi. Nodwyd y byddai hyn yn helpu i gau bylchau yng nghyfraddau cofrestru pobl ifanc nad ydynt yn cofrestru (neu na allant gofrestru) pan fyddant yn 16 ac 17 oed. Amlygodd yr ymatebwyr hefyd yr angen i ddarparu gwell addysg wleidyddol mewn ysgolion, gyda rhai ymatebion yn tynnu sylw at yr angen am well gwybodaeth am bleidleiswyr a mandadau cliriach gan wleidyddion.
- 2.4 Mae amrywiaeth o wasanaethau a phwerau'n cael eu datganoli i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sy'n effeithio ar hawliau plant a phobl ifanc, er enghraifft addysg, gofal cymdeithasol, tai, gwasanaethau amgylcheddol, a diogelu oedolion a phlant sy'n agored i niwed. Bydd mesurau sy'n cael eu gweithredu yn y Bil i wella dealltwriaeth dysgwyr o ddemocratiaeth, yn enwedig y Llwyfan Gwybodaeth Etholiadau Cymreig, ac annog y rhai sy'n gymwys i bleidleisio yn y Senedd ac etholiadau lleol yn cael effaith gadarnhaol ar hawliau plant a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Bydd y Bil a'n pecyn diwygio ehangach yn rhoi mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc geisio a derbyn gwybodaeth am benderfyniadau sy'n effeithio arnynt (erthygl 13 o Hawliau'r Plentyn), dweud wrth aelodau etholedig beth y credant ddylai ddigwydd a rhoi ystyriaeth i'w barn a'u buddiannau (Erthygl 3 a 12 o Hawliau'r Plentyn), a bod eu hawliau'n cael eu parchu, eu diogelu a'u cyflawni (Erthygl 4 o Hawliau'r Plentyn).
- 2.5 Mae ymchwil a wnaed gan y Comisiwn Etholiadol ar gyflawnrwydd a chywirdeb cofrestrau etholiadol yn awgrymu bod pobl ifanc yn llai tebygol o gael eu cofrestru i bleidleisio. Felly, byddai'r gofyniad i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ychwanegu pobl at y gofrestr llywodraeth leol heb gais o fudd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

anghymesur i'r garfan dan-gofrestredig hon. Wrth fwrw ymlaen â'r darpariaethau newydd hyn, mae'r Llywodraeth yn bwriadu gwneud rheoliadau i ddileu'r gofrestr etholiadol agored yng Nghymru ar gyfer etholiadau Cymru i ychwanegu mesurau diogelu ychwanegol ar gyfer etholwyr ifanc a bregus. Yn dilyn y rheoliadau hynny, bydd manylion etholwyr cofrestredig etholiadau lleol yng Nghymru ond yn ymddangos ar y gofrestr etholiadol llywodraeth leol gaeedig. Er y bydd sefydliadau'n dal i allu cael mynediad at y gofrestr hon, ni fyddant ond yn gallu gwneud hynny os oes ganddynt hawl gyfreithiol i'r wybodaeth a gedwir ar y gofrestr etholiadol gaeedig.

- 2.6 Mae'n bwysig bod y newidiadau sy'n effeithio ar bobl ifanc, sut maen nhw'n pleidleisio a'u cyfranogiad yn ein democratiaeth yn cael eu cyfleu iddyn nhw'n effeithiol ac mewn ffordd briodol. Bydd y newidiadau diweddar i'r cwricwlwm yn ein helpu i gyflawni hyn. Ochr yn ochr â chynllun gwybodaeth gyhoeddus gyffredinol ar newidiadau etholiadol, a gwybodaeth leol a ddarperir i ddinasyddion cyn etholiadau a ddarperir gan y Comisiwn Etholiadol ac awdurdodau lleol, byddwn yn defnyddio nifer o sianeli cyfathrebu i gyrraedd pobl ifanc ar yr adeg briodol, pan fyddai'r polisïau hyn yn dod i rym. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio cyfryngau cymdeithasol a gweithio gydag ysgolion, grwpiau ieuencid a phrifysgolion i gefnogi ymgyrch gyfathrebu. Byddwn yn sicrhau bod pobl ifanc yn gwybod sut i fwrw i'w pleidlais a hefyd ble i ddod o hyd i wybodaeth am bwy y gallant bleidleisio drostynt.
- 2.7 Er nad yw wedi'i dargedu'n uniongyrchol at blant a phobl ifanc, gallai'r darpariaethau canlynol gael effaith ar hawliau plant a phobl ifanc.:
1. Gwelliannau i'r trefniadau ar gyfer adolygu a newid trefniadau etholiadol ledled Cymru i gefnogi democratiaeth iach a chryf, lle mae pobl leol yn cymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau bob dydd. Bydd sicrhau bod y lefel briodol o gynrychiolaeth yn caniatáu mwy o drafodaeth am faterion lleol sy'n effeithio ar blant a phlant a'r potensial i fynd i'r afael â'r materion hynny.
 - Bydd cyflwyno iaith wedi'i moderneiddio ar gyfer y drosedd dylanwad gormodol ar gyfer etholiadau Cymru yn ei gwneud yn haws i'r heddlu weithredu pan wneir honiadau o ddylanwad gormodol a bydd yn atal unigolion sy'n ceisio dylanwadu'n annheg ar bleidlais rhywun. Wrth i'r etholfraint ar gyfer etholiadau Cymru ymestyn i bobl ifanc 16 ac 17 oed, bydd y camau hyn yn helpu i sicrhau bod pobl ifanc yn parhau i fod yn rhydd i fynegi eu barn trwy eu hawliau democrataidd (Erthygl 13) a'u bod wedi'u hamddiffyn rhag mathau eraill o gamfanteisio (Erthygl 36).
 - Gyda'r gostyngiad yn yr oedran pleidleisio lleiaf yn etholiadau Cymru i 16, mae llawer o bobl ifanc bellach yn cael cyfle i bleidleisio tra eu bod yn dal i fod



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

mewn addysg. Mynegodd rhai ymatebion i ymgynghoriad papur gwyn i bobl ifanc yr angen am well gwybodaeth am bleidleiswyr a mandadau cliriach gan wleidyddion. Bydd sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol yng Nghymru i gefnogi cydlynu etholiadau a gweithredu fel cynhaliwr platfform gwybodaeth ar gyfer etholiadau Cymru yn helpu i gyflawni hyn.